TIRLUN

## DEUNYDDIAU ATEGOL

# MEWN PERYGL YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL LLŶN

Mae dysgwyr yn ystyried beth mae 'mewn perygl' yn ei olygu, cyn edrych ar enghraifft o organeb a ddiflannodd. Maen nhw'n archwilio adar ar Ynys Enlli a allai fod mewn perygl, gan ddewis un o'r adar hyn i ddarganfod mwy amdano fel y gallant wneud 'cerdyn ffeithiau' ar gyfer dysgwyr iau.
Mae dysgwyr yn darllen am adar sydd i'w cael yn gyffredin yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn ac yn dewis un i ymchwilio iddo. Maent yn edrych ar gynefin yr aderyn o'u dewis ac yn myfyrio ar sut y gallai'r cynefin hwn newid oherwydd dylanwadau allanol. Mae dysgwyr yn ysgrifennu postiad ar y cyfryngau cymdeithasol i ddweud wrth eraill am y ffordd orau o amddiffyn yr aderyn a'i gynefin.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o adnabod a chofnodi manylion ynghylch cynefin aderyn, e.e. allweddi adnabod (planhigion ac anifeiliaid lleol), ffonau clyfar neu dabledi.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YDY YSTYR 'MEWN PERYGL'?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried beth mae 'mewn perygl' yn ei olygu, gan fynd ymlaen i edrych ar enghraifft o organeb a ddiflannodd, yn y dasg hon.

### Sgriniau 3-4

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr wneud rhestr o eiriau sy'n gyfystyr â 'mewn perygl' a'u teipio yn y blwch; yna gallant gymharu eu cyfystyron nhw â'r rhai a ddangosir ar y sgrîn.

### Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiwn canlynol mewn parau a theipio eu rhesymau yn y blwch.

**Cwestiwn ffocws**

- Sut mae organeb yn mynd i sefyllfa lle mae mewn perygl o ddiflannu, yn eich barn chi?  Rhestrwch gynifer o resymau ag y gallwch.

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw feddwl mwy am eu rhesymau dros fod mewn perygl, drwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'ch syniadau fyddai'n peryglu:
    - planhigion
    - anifeiliaid
    - planhigion ac anifeiliaid?

## Sgriniau 7-8

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried y ddelwedd, gan ddefnyddio'r geiriau ar gychwyn eu cwestiynau er mwyn sicrhau eu bod yn gofyn cwestiynau da. Yna, gallant rannu eu cwestiynau o fewn eu grŵp, gan drafod atebion posibl i'r cwestiynau.

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am y carfil mawr. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- Pam, yn eich barn chi, y diflannodd y carfil mawr? Rhowch gymaint o resymau ag y gallwch.

## Sgrîn 10

Dangoswch y fideo: The Tragic End of the Great Auk (bron i 5 munud a hanner o hyd). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y diflannodd y carfil mawr?
- Sut gwnaeth ymddygiad bridio'r carfil mawr ei roi mewn perygl?
- Pam y gallai oes iâ fechan fod yn gyfrifol am roi'r carfil mawr mewn perygl?
- Sut mae'r ffordd y lladdwyd y pâr olaf o garfilod mawr yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- Beth ddylai fod wedi cael ei wneud er mwyn gwarchod y carfil mawr? Sut y byddai hyn wedi helpu?

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu Trydar/X yn mynegi eu barn ynghylch sut y diflannodd y carfil mawr. Dim ond 280 nod sydd ganddyn nhw i wneud hyn.

TASG 2

# PA ADAR SYDD YN DEBYGOL O FOD MEWN PERYGL AR YNYS ENLLI YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL LLŶN?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddant yn archwilio adar a allai fod mewn perygl ar Ynys Enlli yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn, yn y dasg hon. Byddant yn dewis un o'r adar hyn er mwyn darganfod mwy amdano, fel y gallant wneud 'cerdyn ffeithiau' ar gyfer dysgwyr iau.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth am Ynys Enlli sydd ar y sgrîn.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yna lawer o ffactorau a allai beryglu planhigion ac anifeiliaid ar Ynys Enlli. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Yn eich barn chi, sut y gallai adar Ynys Enlli gael eu peryglu gan:
  - o newid yn yr hinsawdd (tymheredd uwch, llifogydd, ac ati)
  - o hela a dwyn wyau
  - o arferion ffermio
  - o pobl yn defnyddio plaladdwyr?
- Mae Ynys Enlli yn rhy fach ar gyfer arferion ffermio modern. Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn fantais i adar?

## Sgrîn 5

Dangoswch y fideo: Around 600 million birds lost in 40 years, RSPB study finds (tua 4 munud a hanner o hyd). Yna, gall y dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r prif risgiau i boblogaethau adar y sonnir amdanynt yn y fideo?
- Pa risgiau eraill sydd i'r adar hyn? Sut mae pob un yn risg?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r adroddiad: Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru.

Eglurwch fod 60 rhywogaeth ar y Rhestr Goch (adar sy'n prinhau ac angen ein cymorth) gyda 91 ar y Rhestr Ambr a 69 ar y Rhestr Werdd.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr gymharu'r adar ar y Rhestr Ambr gyda'r rhai a geir ar Ynys Enlli (yn ôl y dudalen we hon): Bardsey Island bird checklist.

Gwahoddwch y dysgwyr i ddewis un o'r adar ar y Rhestr Ambr, sydd i'w cael ar Ynys Enlli, er mwyn iddyn nhw ddarganfod mwy am fywyd yr aderyn hwn.

## Sgriniau 7-8

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ddefnyddio canfyddiadau eu hymchwil i wneud 'cerdyn ffeithiau' am yr aderyn, ar gyfer dysgwyr iau. Gofynnwch iddynt ddefnyddio'r grid CwAMFf ar y sgrîn nesaf i gynllunio a chynnal eu hymchwil.

## Sgrîn 9

Cyn iddyn nhw wneud eu cerdyn ffeithiau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai yw'r ffeithiau mwyaf diddorol i chi eu darganfod? Pam?
- Sut y gallwch chi ddangos y ffeithiau hyn yn glir?
- Sut allech chi newid eich iaith ar gyfer dysgwyr iau? Sut y gallai hyn eu helpu?
- Pa ddelwedd(au) fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?

Yna, gall y dysgwyr wneud eu cerdyn ffeithiau.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu cerdyn ffeithiau gyda dysgwyr iau, gan ofyn iddyn nhw roi adborth ar:

- ba mor glir y disgrifir y ffeithiau;
- pa mor ddiddorol oedd y ffeithiau iddyn nhw.

TASG 3

# SUT GALLWN NI WARCHOD ADAR YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL LLŶN?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddarllen am adar sydd i'w cael yn gyffredin yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn, gan ddewis un aderyn i ymchwilio iddo. Byddant yn edrych ar gynefin yr aderyn o'u dewis ac yn myfyrio ar sut y gallai'r cynefin hwn newid oherwydd dylanwadau allanol. Bydd dysgwyr yn ysgrifennu postiad ar y cyfryngau cymdeithasol i ddweud wrth eraill am y ffordd orau o amddiffyn yr aderyn a'i gynefin.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth ar y sgrîn am adar sydd i'w cael yn gyffredin yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn. Gyda'u partner, gofynnwch iddyn nhw ddewis un o'r adar ac ymchwilio i ddarganfod gwybodaeth er mwyn gallu ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut olwg sydd ar yr aderyn?
- Ble mae'r aderyn yn byw?
- Ble mae'r aderyn yn nythu?
- Beth mae'r aderyn yn ei fwyta?
- ble mae'r aderyn yn cael ei fwyd?
- Pa ysglyfaethwyr sydd gan yr aderyn?
- Pa risgiau eraill sydd i fywyd yr aderyn?

## Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am fynd i Dirwedd Cenedlaethol Llŷn i ddod o hyd i gynefin yr aderyn y maen nhw wedi bod yn ei astudio.

Gwahoddwch nhw i edrych ar fap Arolwg Ordnans (OS) o Dirwedd Cenedlaethol Llŷn i ddarganfod cynefin yr aderyn hwn. Yna, gallant drafod y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- O'r wybodaeth ar y map, sut fyddech chi'n disgrifio'r cynefin?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr, pan y byddan nhw'n mynd i gynefin yr aderyn, bydd angen iddyn nhw gymryd ffotograffau a gwneud nodiadau am eu harsylwadau. Dylai hyn gynnwys:

- mathau a rhywogaethau o blanhigion
- math o dir, e.e. coediog, gweundir, glaswelltir, ac ati
- ffynonellau bwyd a dŵr ar gyfer eich aderyn
- y tirffurfiau, e.e. tirwedd, nodweddion naturiol, nodweddion artiffisial megis ffyrdd, ffiniau tir, ffermydd ac adeiladau.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa offer sydd angen i chi fynd gyda chi? Pam?

## Sgrîn 6

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gofnodi manylion ynghylch cynefin eu haderyn.

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar eu gwybodaeth am yr aderyn o'u dewis a'r wybodaeth y maen nhw wedi'i chael am gynefin yr aderyn hwn. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallai cynefin eich aderyn gael ei effeithio gan:
  - newid yn yr hinsawdd (tymheredd uwch, llifogydd, ac ati)
  - arferion ffermio
  - pobl yn defnyddio plaladdwyr?
- Beth allech chi ei wneud i warchod cynefin eich aderyn? Sut y byddai pob un o'r syniadau hyn yn helpu'ch aderyn i oroesi?

Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr lunio map meddwl i ddangos eu syniadau.

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am greu postiad ar y cyfryngau cymdeithasol i ddweud wrth eraill sut y gallant helpu i ddiogelu'r aderyn o'u dewis a'i gynefin. Gofynnwch iddynt edrych ar eu map meddwl, gan y bydd hyn yn gymorth iddynt yn eu trafodaethau ynghylch y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r darnau allweddol o wybodaeth? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth allech chi ei adael allan? Pam?
- Sut y byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth hon yn eich postiad? Pam?
- Sut y byddwch chi'n diddori ac yn ennyn diddordeb y darllenydd?
- Pa ddelweddau fyddwch chi'n eu cynnwys? Pam?
- A fyddai'r delweddau hyn ar gael yn rhad ac am ddim? Sut ydych chi'n gwybod? A fyddai hawlfraint arnynt? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Sut y byddwch chi'n monitro effaith eich postiad?

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu a chyhoeddi eu postiad ar y cyfryngau cymdeithasol. Yna, dylent gadw golwg ar yr ymatebion i'w postiad.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar y dasg gan ddefnyddio'r dechreuwyr brawddegau ar y sgrîn.